

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai
ar nos Iau 13 Chwefror, 2020 am 19.00**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. David K Jones a Myfanwy Jones.

3. Pennaeth Gwasanaeth Wardeinio, Parc Cenedlaethol Eryri

Croesawyd Adam Daniel i'r cyfarfod a cafwyd sgwrs am waith y Gwasanaeth Wardeinio ac am yr ymgynghoriad Cynllun Eryri. Pwysleiswyd faint o bwysig oedd bod cyn gymaint a phosib yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Diolchwyd i Adam am ei amser a'r sgwrs defnyddiol.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr, 2020.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

Diffibriliwr – drws ciosg Llan wedi cael ei drin. Y sesiwn hyfforddiant wedi ei ail-drefnu ar gyfer 2il o Fawrth am 6yh yn Festri Bethlehem, Talybont.

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd i gwblhau ychwaneg o ymchwiliadau pan fu'r tywydd yn addas. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Llifogydd Tan Lôn – angen trefnu cyfarfod ar y safle gyda Stad Penrhyn, swyddogion Cyngor Gwynedd a cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned.

Allt Ty'n Hendre a Ffordd Bronydd – tyllau ar hyd y ffordd. Y Clerc i holi eto.

Wal Maes y Groes – adroddwyd bod car wedi taro'r wal ar y gornel unwaith eto a difrodi'r wal. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Lôn Goed ac Allt Ty'n Hendre – angen y lori i lanhau'r dail a mwd. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Neuadd Talgai (Ionawr)	£25.00
Partneriaeth Ogwen – ciosg Llan	£43.70

7. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – e-bost gan Simon Higham ynglŷn a arwyddion Fferm Talybont Uchaf. Y Clerc i ymateb.

Cyflwynwyd – e-bost gan Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ynglŷn a llifogydd Tai'n Lôn. Y Clerc i ymateb.

Cyflwynwyd – e-bost gan Lisa Goodier, Uwch Reolwr Prosiect 'Ogwen Catchment Natural Flood Risk Management.' Y Cyngor yn awyddus i glywed mwy am y prosiect. Y Clerc i drefnu cyfarfod.

Cyflwynwyd – e-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri – ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun Eryri. Pwysig bod pawb yn ymateb.

Cyflwynwyd – e-bost gan Peredur Williams, Prifysgol Bangor ynglŷn a'r 'Peatland Code' – ffarmio'r mawndir. Penderfynwyd anfon gwahoddiad i Peredur i ddod i un o'n cyfarfodydd i gael sgwrs pellach.

Cyflwynwyd – e-bost gan Clwb Moduro Môn ac Arfon – y Cyngor yn anhapus gyda'r ymateb ac am wneud ymholiadau pellach gyda Chyngor Gwynedd.

8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Dim i'w adrodd.

9. Cae chwarae Tal y bont

Rachel Martin wedi bod draw i'r swyddfa i drafod y cae chwarae ac ei bod yn frwdfrydig i weld y safle yn cael ei ddatblygu. Y Clerc i drïo cysylltu gyda'r is-bwyllgor unwaith eto.

10. Lwfans Blynyddol 2019-20

Pawb oedd yn bresennol wedi derbyn ffurflen ar gyfer 'optio allan' o dderbyn y taliad, a ffurflen 'Rhestr Wirio' gan CThEM os ydynt am dderbyn y taliad. Yr aelodau i lenwi pa ffurflen oeddent yn ddymuno. Y Clerc i anfon y ffurflenni at yr aelodau oedd ddim yn bresennol.

11. Rhoddion

Trafodwyd y rhestr ceisiadau. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn.

Llais Ogwan	£100.00
Clwb Henoed Llanllechid	£50.00
Dawns i Bawb	£50.00
Clwb Pêl-droed Bethesda	£50.00
Tîm Ymatebwyr Cyntaf Cymuned Dyffryn Ogwen	£100.00
Swyddog Hybu Rygbi	£100.00

Neuadd Talgai	£100.00
Siop Ogwen	£50.00
Brownies Nant Ffrancon	£50.00
Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	£100.00

12. Penderfyniadau Cynllunio:

C19/1077/21/HY

Ogwen Bank, Maes Carafannau, Bethesda

Cais ôl-weithredol i osod 3 arwydd wedi eu goleuo.

Penderfyniad: Gwrthodwyd. Mae'r arwyddion, oherwydd eu maint sylweddol, dyluniad, graddfa a lleoliad, yn debygol o gael effaith niweidiol ar fwynderau gweledol yr ardal o'i gwmpas.

C19/1021/16/LL

Hartwell, 1 Bythynnod, Tal y bont, Bangor

Disodli tô gwastad gyda crib ynghyd ac estyniad i greu porth

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru.

Ceisiadau Cynllunio:

Dim ceisiadau.

13. Materion Brys

Lôn Goed – cylfat diffygiol yn gwaelod y ffordd. Dŵr yn casglu ar y lôn pan mae wedi bod yn bwrw.

Llwybr Bryn Derwas i Cochwillan – y Ramblers wedi bod yno i glirio'r eithin a drain oedd wedi gor-dyfu. Y Clerc i anfon llythyr o ddiolch.

Lôn Ddŵr, Talybont - problem gyda tanc septig yn gollwng ar hyd y ffordd ac yn drewi. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd a Dŵr Cymru.

Lôn Bryn – bwlch yn y ffôs felly y dŵr yn y ffordd.

Outreach – gwneud gwaith ar y lonydd cul, ac ddim yn rhoi rhybudd.